**Disgrifiad Swydd**

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl Swydd** | **Gweithiwr Cefnogaeth Teuluoedd yn Gyntaf** | | |
| **Rhif Swydd** | **BG13952** | **Gradd** | **6** |
| **Prif Weithle** | **Gweithio Ystwyth / Canolfan Plant Integredig Blaenau** | **Oriau gwaith** | **37 yr wythnos** |
| **Lwfans Defnyddiwr Car** | | **Datgeliad** | **Estynedig** |
| **Cyswllt** | **Nicola Dawson** | **Diweddarwyd** | **Ionawr 2025** |

**Cyfyngiad gwleidyddol** ☒ **Na** ☐ **Oes ***

* Mae cyfyngiad gwleidyddol ar y swydd o fewn darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y nodir yn Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990.

**<u>Prif Ddiben y Swydd</u>**

Cyfrifol i: Rheolwr Tîm Teuluoedd yn Gyntaf

Cyfrifol am: Drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, dynodi ac asesu angen, cyflwyno ymyriadau ac ymgysylltu â theuluoedd sydd angen gwasanaethau ataliol o fewn Blaenau Gwent; i'w cefnogi wrth ddiwallu eu hanghenion eu hun a gostwng tebygrwydd ymyriad statudol yn y dyfodol.

Cydlynu a chyflwyno pecynnau pwrpasol o gefnogaeth, yn seiliedig ar y model Tîm o Amgylch y Teulu gyda chanlyniadau mesuradwy a ddiffiniwyd yn glir ar gyfer teuluoedd.

**<u>Prif Gyfrifoldebau</u>**

1. Bod yn weithiwr proffesiynol aml-sgil, yn gweithio gyda theuluoedd agored i niwed i gefnogi anghenion unigolion o fewn y teulu hyd at 25 oed a allai gynnwys elfennau blynyddoedd cynnar, gwaith ieuenctid, gofalwyr ifanc, anabledd a chefnogaeth i rieni.

2. Cynnal asesiadau teulu a rhoi pecynnau cefnogaeth ymyriad cynnar i deuluoedd wedi'u targedu sy'n byw o fewn awdurdod lleol Blaenau Gwent.

3. Cyflwyno gwasanaethau ar gyfer rhieni, plant a phobl ifanc a chysylltu gwaith Teuluoedd yn Gyntaf yn glir gydag atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

4. Cefnogi, pan yn briodol, deuluoedd lle caiff anghenion eu plentyn/plant eu diwallu drwy gynllun gofal a chefnogaeth.

5. Cyflwyno rhaglenni cynhwysfawr cefnogaeth i rieni sy'n cwmpasu’r themâu dilynol:
   Cefnogaeth amenedigol a chefnogaeth blynyddoedd cynnar hyd at 7 oed
   Cefnogaeth ar gyfer rhieni plant yng nghanol plentyndod 7-12 oed
   Cefnogaeth i rieni plant a phobl ifanc yn eu harddegau

6. Cyflwyno rhaglenni a phecynnau cefnogaeth pwrpasol i alluogi teuluoedd i ddod yn hyderus, cefnogol, cydnerth a diogel.

7. Cadeirio cyfarfodydd Tîm o Amgylch y Teulu i ddatblygu Cynlluniau Cefnogaeth Teuluoedd sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac a gaiff eu creu mewn partneriaeth gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill yn unol â chanllawiau Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

8. Dal achosion a bod yn weithiwr allweddol, yn atebol am gyflwyno ac adolygu cynlluniau cefnogi teuluoedd gan hyrwyddo ymgyfraniad teuluoedd.

9. Cyfathrebu'n effeithlon gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, cydweithwyr, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill perthnasol.

10. Gweithio mewn ffordd wrthwahaniaethol sy'n parchu hawliau a chredoau'r unigolyn tra’n sicrhau ymagwedd gyfranogol at waith gyda phlant a phobl ifanc.

11. Cadw cofnodion electronig cywir yn unol â pholisi a chanllawiau'r Gyfarwyddiaeth a deddfwriaeth.

12. Gweithio gyda'r Tîm Cefnogi Busnes o fewn Teuluoedd yn Gyntaf i sicrhau y caiff dangosyddion perfformiad a thargedau eu diwallu ac yr adroddir arnynt yn effeithlon.

13. Gweithio fel rhan o dîm i gyflwyno'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i ddiwallu anghenion unigol a chynyddu canlyniadau cadarnhaol.

14. Bod ar gael i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn diwallu anghenion teuluoedd.

15. Arddangos ymrwymiad i ddatblygiad personol drwy gymryd rhan mewn hyfforddiant fel a phan fo angen.

16. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r radd a'r rôl, yn ôl cyfarwyddyd Pennaeth y Gwasanaeth.

17. Cydymffurfio gydag adrannau perthnasol datganiad polisi'r Awdurdod ar iechyd, diogelwch a llesiant yn y gwaith.

18. Cydymffurfio ag egwyddorion y polisi corfforaethol ar gydraddoldeb a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

# Manyleb Person - Gweithiwr Cefnogaeth

| 1. Cymwysterau a phrofiad | Dull Asesu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (noder) | Cyfnod Prawf |
| **Cymwysterau/profiad perthnasol** | | | | | |
| Cymhwyster proffesiynol perthnasol Lefel 3 neu uwch mewn Gofal Cymdeithasol, Iechyd, Addysg, Blynyddoedd Cynnar, Gwaith Ieuenctid, Gwaith Chwarae | Hanfodol | ✓ | | | |
| Profiad amlwg o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn gosodiad cymunedol | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Profiad amlwg o gynnal asesiadau a chyflwyno ymyriadau | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| O leiaf Lefel 1 a 2 Diogelu a phrofiad cadarn a gwybodaeth o weithdrefnau amddiffyn plant, rhannu gwybodaeth a haenau ymyriad. | Hanfodol | ✓ | | | |
| Cymwys i gyflwyno Rhaglenni Blynyddoedd Anhygoel / Cysylltiadau Teulu / Rhaglenni Rhianta Parentline Plus / STEPS / Cyfweliadau cymhellol | Dymunol | ✓ | | | |
| **Profiad arall** | | | | | |
| Profiad o waith partneriaeth aml-asiantaeth | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Profiad o weithio gyda theuluoedd "anodd eu cyrraedd" | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| **Gwybodaeth/Sgiliau** | | | | | |
| Dealltwriaeth o anghenion teuluoedd sydd angen ymyriad cynnar ac a all fod angen gwasanaethau cefnogaeth ychwanegol | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Gallu i gadw cofnodion cywir yn unol â pholisi'r Gyfarwyddiaeth | Hanfodol | ✓ | | | ✓ |
| Gallu i weithio i amserlenni a benderfynwyd ymlaen llaw ac amserlenni caeth | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Gwybodaeth waith gadarn o ddeddfwriaeth, canllawiau a safonau'n ymwneud â gwasanaethau cefnogaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cynnwys model JAFF/Tîm o Amgylch y Teulu | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |
| Gwybodaeth waith dda o raglenni rhianta | Dymunol | ✓ | | | |
| Gallu i weithio mewn modd cyfrinachol a deall y rhesymau am hyn | Hanfodol | ✓ | ✓ | | |

| 2. Gofynion Sgiliau yn y Gymraeg | Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (noder) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (lefel 0 ym mhob lefel Iaith Gymraeg) | Dymunol | ✓ | ✓ | | |

| | Lefel 0 | Lefel 1 Mynediad | Lefel 2 Sylfaen | Lefel 3 Canolradd | Lefel 4 Uwch | Lefel 5 Hyfedredd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Siarad/Gwrando | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Darllen/Deall | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Gweler "Canllawiau Sgiliau yn y Gymraeg" ar wefan Blaenau Gwent i gael mwy o wybodaeth ar y lefelau uchod.

| 3. Gofynion Arbennig | Hanfodol / Dymunol | Ffurflen Gais | Cyfweliad | Arall (noder) | Cyfnod Prawf |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwydded yrru lawn a mynediad i gar ar gyfer dibenion gwaith. | Hanfodol | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gallu i weithio oriau hyblyg i gyflawni anghenion plant a'u teuluoedd. | Hanfodol | ✓ | ✓ | | ✓ |

## 4. Cymwyseddau Personol

Caiff pob cymhwysedd eu hystyried fel bod yn hanfodol, er y cydnabyddir y gall rhai gael eu cyflawni dros gyfnod. Disgwylir i'r holl gyflogeion i ddatblygu eu cymwyseddau yn barhaus yn unol gyda'r fframwaith priodol.
Yn ogystal â'r rhai a aseswyd fel rhan o'r broses recriwtio, caiff cymwyseddau eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedyn drwy gynllun hyfforddiant perfformiad yr Awdurdod.

**Dull Asesu**

| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/ Hyfforddiant Perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi'r Gwasanaeth** | Blaen-gynllunio, trefnu gwaith ymlaen llaw | ✓ | | | ✓ |
| | Cynnwys rheolwr llinell/ cydweithwyr wrth osod a chyflawni targedau | ✓ | | | ✓ |
| | Ad-drefnu gwaith pan fo angen | ✓ | | | ✓ |
| | Mynd â thasgau rhagddynt hyd eu cwblhau lle bynnag sy'n bosibl | ✓ | | | ✓ |
| | Gofyn am help os daw pwysau gwaith yn anhylaw | ✓ | | | ✓ |
| | Defnyddio cymhelliant i roi adroddiad ar faterion sy'n codi sy'n effeithio ar eraill | ✓ | | | ✓ |

| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/Hyfforddiant Perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella a Newid** | Parod i roi cynnig ar bethau newydd a rhoi adborth ar ganlyniadau | | | | ✓ |
| | Deall fod angen newidiadau os yw pethau i wella | | | | ✓ |
| | Canfod ffyrdd newydd a chreadigol o wneud pethau'n well | | | | ✓ |
| | Mynd ati i geisio datblygu eu sgiliau a gwybodaeth ei hun | | | | ✓ |
| | Dysgu o gamgymeriadau a chroesawu adborth adeiladol | | | | ✓ |

| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/Hyfforddiant Perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu Gwasanaeth Ardderchog i Gwsmeriaid** | Adnabod pwysigrwydd safonau uchel gwasanaeth cwsmeriaid | | | | ✓ |
| | Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth ardderchog i holl ddinasyddion Blaenau Gwent | | | | ✓ |
| | Deall y cysylltiadau rhwng eu proffesiynoldeb eu hunain a'r effaith bosibl ar ddelwedd yr Awdurdod | | | | ✓ |
| | Agwedd broffesiynol sy'n gosod esiampl i gydweithwyr | | | | ✓ |
| | Ymfalchïo yn eu gwaith eu hun a gwaith cydweithwyr | | | | ✓ |
| | Bob amser yn dangos parch, yn gwrtais a pharod i gynorthwyo | | | | ✓ |

| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/Hyfforddiant Perfformiad |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **Gwaith Tîm** | Ymateb yn adeiladol i awgrymiadau a cheisiadau pobl eraill | | | | ✓ |
| | Cydnabod gwerth posibl barn pobl eraill a mynd ati i ofyn am eu cyfraniadau | | | | ✓ |
| | Gofyn am help pan fo angen | | | | ✓ |
| | Mynd ati i geisio helpu pobl eraill | | | | ✓ |
| | Gwybod am effaith eu hymddygiad eu hunain ar bobl eraill | | | | ✓ |

| Pwnc | Cymwyseddau | Ff. Gais | Cyfweliad | Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu ac ati (noder) | Cyfnod Prawf/Hyfforddiant Perfformiad |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **Cyfathrebu** | Addasu cynnwys ac arddull i helpu pobl eraill i ddeall | ✓ | | | ✓ |
| | Gwneud yn sicr y caiff pobl wybodaeth yn rheolaidd | ✓ | | | ✓ |
| | Defnyddio iaith, ystum a thôn priodol wrth siarad gydag eraill | ✓ | | | ✓ |
| | Gwirio fod eraill wedi deall a cheisio cyngor pan fo angen | ✓ | | | ✓ |
| | Mynd ati i geisio gwella pob math o gyfathrebu gyda phobl eraill | ✓ | | | ✓ |
| | Cyfathrebu'n broffesiynol drwy ddefnyddio sianeli ffurfiol priodol i'r sefyllfa | ✓ | | | ✓ |